

Natur yn Sir Gaerfyrddin

...ein dull o weithredu'n lleol 2020–2030

RHAN 3

Gweithredu camau cenedlaethol ar raddfa
leol – cynllun mewn partneriaeth i adfer
natur

Mai 2020

Partneriaeth Natur
SIR GÂR • CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership



Mae **Rhan 3** yn ystyried yr ardaloedd blaenoriaeth i weithredu arnynt yn y sir ar gyfer Partneriaeth Natur Sir Gâr. Adlewyrcha'r rhain yr amcanion ar gyfer Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru [1] a'r cyfleoedd a ddynodwyd yn Natganiad Ardal De Orllewin Cymru [2].



Derek Moore

3.1 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru

Lansiwyd y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) gan Fwrdd Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru yn 2015, y mae ei aelodau'n cynrychioli rheolwyr y tir a'r môr, Cyfoeth Naturiol Cymru, y trydydd sector amgylcheddol (heb fod yn sefydliadau cyhoeddus na phreifat), awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'n gynllun i bawb yng Nghymru.

Ei nod yw mynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd colli bioamrywiaeth yng Nghymru trwy:

- roi natur yng nghanol ein proses gwneud penderfyniadau,
- cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol
- cymryd camau penodol dros gynefinoedd a rhywogaethau.

Mae'r NRAP yn nodi sut bydd Cymru'n cyflawni ymrwymadau

Cynllun Strategol dros Fioamrywiaeth Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol a'r targedau bioamrywiaeth [34, 35] cysylltiedig yng Nghymru. Mae'r NRAP (sydd wrthi'n cael ei adolygu) yn dynodi camau y gellir eu cyflawni yn y tymor byr ac yn gosod cwrs i gyflawni ymrwymadau tymor hwy y tu hwnt i 2020. Bydd y camau'n cael eu hadolygu'n gyson. Bydd set o ddangosyddion yn cael ei datblygu hefyd i fesur cynnydd NRAP yn erbyn amcanion.

Mae'r NRAP yn cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac yn ychwanegu atynt. Dyma ddau ddarn o ddeddfwriaeth bwysig y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fel y cyngor, cynghorau cymuned, byrddau iechyd ac ati eu dilyn (gweler Atodiad 1)

Yn yr NRAP, dynodwyd amcanion i fynd i'r afael â'r materion sy'n cymhell y dirywiad mewn bioamrywiaeth, ac i

- 1 Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn ymgorffori bioamrywiaeth ar hyd pob lefel o wneud penderfyniadau;
- 2 Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf a gwella'r rheolaeth ohonynt.
- 3 Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd wedi dirywio a chreu cynefinoedd;
- 4 Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd;
- 5 Gwella ein tystiolaeth, dealltwriaeth a monitro.
- 6 Rhoi ar waith fframwaith o lywodraethu a chymorth i gyflawni.

Yn Sir Gaerfyrddin, mae fframwaith ar gyfer helpu natur yn un o'r mecanweithiau y gellir cyflawni'r amcanion cenedlaethol hyn yn lleol trwyddynt.

3.2 Adfer Natur yn Sir Gaerfyrddin... dynodi'r heriau a'r cyfleoedd

Wrth lunio unrhyw gynllun, mae'n bwysig i archwilio beth y gall unrhyw bartneriaeth ei chyflawni'n rhesymol a ble mae'r heriau a'r cyfleoedd. Bydd hyn yn dylanwadu ar strwythur unrhyw gynllun, yn arwain y gwaith o osod amcanion lleol yn realistig ac yn helpu i ganolbwyntio ar ble y gall y camau mwyaf effeithiol ddigwydd.

Rhaid peidio ag anghofio fod llawer o waith da wedi'i wneud ers

blynyddoedd gan bartneriaid, ac yn parhau i gael ei wneud, ar eu pen eu hunain a thrwy gydweithio, a bod hyn eisoes yn cyfrannu at yr amcanion cenedlaethol.

Wrth ddatblygu cynllun newydd, rhaid i ni ystyried **pam**, er gwaethaf llawer o waith, buddsoddi ac ymdrech, y mae llawer o rywogaethau a chynefinoedd wedi bod yn parhau i ddirywio ledled Cymru. Tra dylai'r cynllun fod yn uchelgeisiol, rhaid bod yn realistig ynghylch y camau y gall y Bartneriaeth eu cyflawni'n rhesymol. Ceir heriau/cyfyngiadau i ymgymryd â chamau, ynghyd â chyfleoedd na ddylid eu hesgeuluso.

3.3 Heriau

- **Perchnogaeth tir a chwmpas dylanwad y partneriaid** – ble allwn ni weithio'n realistig? Pa mor fawr yw'r chwmpas dylanwad sydd gennym er mwyn cyflawni prosiect graddfa fwy yn llwyddiannus. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o bartneriaid yn rheoli deiliadaethau ar wasgar ac mae ganddynt ddylanwad cyfyngedig ar rai o'r

lleiniau o dir mwy o faint (e.e. Dyffryn Tywi) lle gallai newidiadau ar raddfa fawr gael eu gwneud y tu allan i safleoedd gwarchoddedig.

- **Cyfyngiadau parhaus ar adnoddau** - mae hyn yn dylanwadu ar allu'r partneriaid i ymgymryd â chamau, nid dim ond gwaith prosiect ond gyda rhediad pob dydd rhai o'r sefydliadau partner. Pan fo rhaid i rai sefydliadau partner dreulio symiau sylweddol o amser i ganfod costau craidd, cyfyngir yn sylweddol ar y cwmpas i godi arian neu gyfrannu at brosiectau newydd.
- **Parhau i golli arbenigedd ecolegol yng Nghymru**, a diffyg 'arbenigwyr i'r dyfodol', a fydd yn effeithio ar unrhyw lwyddiant i'r dyfodol. Er enghraifft, cyfyngir yn fwyfwy ar CNC yn eu rôl bwysig o ddarparu cyngor ecolegol i sefydliadau eraill.
- **Gweithredu'r ddeddfwriaeth - Er gwaetha'r ddeddfwriaeth amgylcheddol well**, ymddengys ei bod hi'n parhau i fod yn her i weithredu/integreiddio hyn gan bawb sydd â chyfrifoldeb i wneud hynny, e.e. mewn cyrff cyhoeddus, amaethyddiaeth, coedwigaeth, môr a datblygu. Gallai hyn fod yn

gysylltiedig â diffyg adnoddau a blaenoriaethau'n gwrthdaro, ond ni all hyn wyro o'r gofyniad i wneud hynny.

- **Llywio/dehongli** ystod y polisïau, strategaethau, deddfwriaeth a chanllawiau datblygol a helaeth (ynghyd â'r holl acronymau cysylltiedig) - gall y rhain fod yn ddwys i'w darllen ac yn anodd i'w defnyddio. Yr her yw dehongli'r rhain gan ddefnyddio iaith syml, yn enwedig gan fod ffocws ar 'atebion seiliedig ar le' a gyflwynir gan ystod o sefydliadau, a allai fod yn anghyfarwydd â'r uchod.
- Ceir effeithiau parhaus a chynyddol yn sgil **newid hinsawdd** – mae angen integreiddio unrhyw bolisïau newid hinsawdd gyda pholisïau ar gyfer bioamrywiaeth. Mae argyfwng hinsawdd yn argyfwng bioamrywiaeth. Gall mesurau lliniaru newid mewn hinsawdd waethygu'r argyfwng bioamrywiaeth felly mae yna angen iddynt gael eu hystyried gyda'i gilydd bob amser.
- **Brexit** - Gallai gadael yr Undeb Ewropeaidd gyflwyno rhai heriau (a chyfleoedd) go iawn ar gyfer cadwraeth natur a rheoli tir yn y sir yn wyneb amgylchedd economaidd heriol, ar adeg pan fo bioamrywiaeth yn parhau i ddirywio.
- **Yr her i ysgogi camau gweithredu** ymhlith y rhai sy'n gweithio y tu allan i gadwraeth ond sy'n gallu helpu i greu effaith, e.e. busnes, twristiaeth, diwydiant. Yr her y mae llawer o bartneriaid yn ei hystyried yw sut i hysbysu, ysbrydoli a darparu'r offer i newid diwylliant ac arferion gweithio a'r adnoddau y mae'n cymryd i wneud hyn. Nid oes dim byd gwell na phobl ar gael ar y tir i siarad â nhw.



- Yr her o **gyfleu materion bioamrywiaeth yn effeithiol** i ystod o bobl a'r sgiliau a'r amser y mae hynny'n gofyn amdano. Rhaid i ni ddefnyddio iaith glir a dadleuon pwyllog neu 'ddweud straeon' a, lle bo angen, bod yn ddifyr er mwyn sicrhau y gwrandewir arnom.
- Mae angen i bartneriaid allu **troi at yr holl ddata a thystiolaeth bioamrywiaeth perthnasol**, i'w defnyddio ar brosiectau lleol ac i ddatblygu cynlluniau adfer natur lleol. Ceir llawer o wybodaeth, ond mae angen ei thynnu ynghyd ar raddfa briodol i sicrhau ei bod ar gael i bawb. Dylai cyfranwyr gwirfoddol setiau mawr o ddata (e.e. cofnodwyr sirol), y mae eu data'n aml yn cyfrannu'n sylweddol at fapio a gosod blaenoriaethau, gael cefnogaeth i allu cefnogi a mapio'r data a gasglant.
- Gall **natur cyllid grant** (mae'n gystadleuol, ond disgwylir i sefydliadau gydweithredu yn aml iawn) gyfaddawdu canlyniadau da potensial oherwydd gall yr elfen gystadleuol rwystro trafodaethau defnyddiol rhwng sefydliadau. Yn ogystal, dim ond 3 blynedd y mae grantiau'n para'n aml iawn ac maen nhw'n canolbwyntio ar 'arloesedd'. Golyga hyn fod rhaid dod â llawer o fentrau rhagorol i ben oherwydd ni allant gael cefnogaeth barhaus. Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o raglenni monitro tymor hir hanfodol.
- Gwneir llawer o waith pwysig gan **wirfoddolwyr** a dibynnwn ar lawer o ewyllys da y byddant yn parhau i gymryd rhan. Ymddengys bod disgwyliad cynyddol o'r hyn y gallant ei gyflwyno ar y tir i ni. Yn ogystal, mae cefnogi gwirfoddolwyr a'u hanghenion amrywiol (cyrff anlywodraethol yn aml) – hyd yn oed eu cael nhw ar y safle – yn



I. Morgan

golygu cost i'r sefydliadau hynny sy'n eu goruchwyllo.

- **Covid-19** - Mae'r pandemig Covid-19 yn cael canlyniadau anorfod ar fioamrywiaeth a chadwraeth, a bydd hynny'n anochel. Mae'r straen ar lywodraethau ac economïau a achosir gan y pandemig (yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol) yn debygol o leihau'r adnoddau sydd ar gael i weddnewid tueddiadau o ran colledion bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd. Er bod rhai gwelliannau wedi bod, e.e. mewn ansawdd aer a llygredd sŵn, mae'n debygol mai am y tymor byr fydd y rhain.

Mae cyfle, fodd bynnag, i ddefnyddio hyn i bwysleisio'r cysylltiadau sydd rhwng ecosystemau iach a chydnerth ar yr un llaw a lles dynol ar y llaw arall, gyda'r gobaith y bydd yn ysgogi ymdrechion i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth ac y bydd fframweithiau bioamrywiaeth yn y dyfodol yn fwy trawsnewidiol a chydweithredol.

Fodd bynnag, mae yna gyfleoedd bob amser...

3.4 Cyfleoedd

- Efallai bod ffocws blaenorol ar

safleoedd gwarchodedig wedi galluogi colledion sylweddol mewn bioamrywiaeth y tu allan i'r rhwydwaith o safleoedd dynodedig, yn y cefn gwlad ehangach [35]. Rhaid i'r rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig y tu allan i'r rhwydwaith cenedlaethol o gynefinoedd gael eu hystyried yn annatod i lwyddiant unrhyw adferiad natur i'r dyfodol. Gall y partneriaid gyfrannu at hyn trwy reoli eu safleoedd eu hunain, sydd yn aml yn rhai heb eu dynodi, a thrwy ymgysylltu trwy grwpiau fel Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, cydnabuwyd mai **amaethyddiaeth sydd â'r potensial mwyaf i greu rhwydweithiau cydnerth gyda'r dirwedd.**

- Bydd **amcanion lleol ar y cyd** y cynllun yn ein helpu ni i dargedu amser ac adnoddau i ddatblygu a chyflawni prosiectau ar y raddfa briodol i fwyhau adferiad natur, ac yn ei dro, cefnogi ecosystemau iach, gweithredol a'r buddiannau amryfal cysylltiedig. Mae'r cynllun yn darparu fframwaith er mwyn i sefydliadau perthnasol allu dod at ei gilydd i gynllunio ac edrych ar ddewisiadau a deall pwy sy'n cyflawni beth a ble yn y sir. Gallwn barhau i rannu gwybodaeth, cyfleoedd hyfforddiant ac ati a

rhannu enghreifftiau o lwyddiannau ac arfer gorau sy'n gweithio'n dda (ac nid cystal!!). Dyma swyddogaeth sylfaenol y tyf syniadau da ohoni.

- Mae rhai partneriaid yn rheoli ardaloedd mawr o dir ac/neu swyddogaethau ehangach. Mae'r bartneriaeth yn cynnig **cyfleoedd i bartneriaid gydweithio** gan rannu profiad/arbenigedd dros ardaloedd ehangach. Gallwch edrych hefyd i weithio (mwy) gyda phartneriaid newydd, e.e. DC/WW, Asiant Cefnffyrdd De Cymru, Network Rail ac undebau ffermio pan fydd y cyfle'n codi.
- Gallwn **gyfrannu at y dystiolaeth** am ystod y manteision o reoli cynefinoedd yn effeithiol (e.e. gallai gwarchod mawnogydd helpu i leddfu newid mewn hinsawdd, storio dŵr a helpu'r cynefinoedd a'r rhywogaethau cysylltiedig) a dynodi 'atebion seiliedig ar natur' amrywiol (gweler Atodiad 1 – Polisi Cyfoeth Naturiol) sydd â manteision amryfal, e.e. amddiffyn rhag llifogydd yn lleol ac adeiladu cydnerthedd ecosystemau. DS. Bydd angen i ni archwilio'r hyn y gallai **atebion seiliedig ar natur** fod yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin, er mwyn i ni allu deall mwy am y cyfleoedd a gyflwynir ganddynt.
- Wrth i Lywodraeth Cymru benderfynu ar sut bydd cynlluniau rheoli tir (ar ôl Brexit) newydd Cymru'n edrych, mae yna wir gyfle i Bartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin helpu (o ran ei chyflawni'n lleol) i arwain y cynlluniau talu newydd a'r rhwydwaith ymgynghori â ffermydd gyda **chyngor ac arweiniad** lleol.
- Mae'r Bartneriaeth Natur mewn lle da i edrych ar **ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth**, gan gysylltu safleoedd gwarchoddedig gyda

safleoedd/cynefinoedd eraill yn y dirwedd, sy'n dylanwadu ar gamau gweithredu, yn **gosod blaenoriaethau** ac yn edrych ar **brosiectau lleol** a allai wneud hyn. Gallwn weithio y tu hwnt i gynlluniau amaeth-amgylchedd gyda thirfeddianwyr cyfrannog llai o faint ac edrych i ddatblygu rhwydweithiau gan ddefnyddio adferiad cynefinoedd targedig a datblygu prosiectau o raddfeydd amrywiol. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn glir ynghylch beth fydd y rhwydweithiau yn eu cyflawni a sut byddant yn edrych, a'r hyn sy'n bwysig yw beth mae angen i ni ei wneud i'w datblygu. Gallai CGBGC ddarparu'r llinell sylfaen a gallai Partneriaeth Natur Sir Gâr 'uno'r dotiau' yn enwedig mewn perthynas â chysylltedd. Bydd hyn yn helpu i lywio'r blaenoriaethau a datblygu prosiectau lle gwelwn fylchau a allai helpu gyda chynllunio trwy lywio materion ecolegol mewn ceisiadau cynllunio.

- **Ysbrydoli/darparu arweiniad** i nifer gynyddol y prosiectau dan arweiniad y gymuned/busnes/twristiaeth yn y sir. Gallwn ddatblygu 'hwb' ar-lein i roi gwybodaeth i bobl.
- Gall y cynllun gysylltu â Datganiad Ardal De Orllewin Cymru [2] a'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, i **fwyhau cyfleoedd a gosod blaenoriaethau** a chael eu harwain gan y wybodaeth yn yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol [19].
- Parhau i **achub ar gyfleoedd a bod yn arloesol** yn y ffordd a weithiwn, a pheidio â chael ein cyfyngu na'n diffinio o reidrwydd gan yr amgylchedd wedi'i gymell gan brosesau y gofynnir i ni weithredu ynddo.
- Defnyddio'n profiad/gwybodaeth i

ysgogi camau ymhlith y rhai sy'n gweithio y tu allan i gadwraeth ond sy'n gallu helpu i gael effaith e.e. y cyhoedd, ysgolion, busnes, twristiaeth. Gallwn gydweithio i benderfynu sut i lywio, ysbrydoli a darparu'r offer/gwybodaeth i annog camau cadarnhaol. Gallwn edrych i ddenu arbenigedd o'r sectorau hyn lle mae rhai camau cadarnhaol eisoes wedi'u cymryd.

- Gall y cynllun **helpu i lywio/cefnogi ceisiadau am gyllid** er mwyn i unrhyw brosiect allu dangos ei fod yn bodloni amcanion lleol ar gyfer adfer natur trwy gyfeirio at y cynllun a sut mae'r sefydliad sy'n ymgeisio yn rhan o bartneriaeth a fydd yn buddsoddi yn yr egwyddorion hyn.
- Gall y cynllun lleol, oherwydd y ffordd y caiff ei saernio, gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a gall fod yn llawer mwy **ymatebol i wybodaeth newydd neu newid** mewn deddfwriaeth/polisi/ymchwil.

3.5 Cymryd camau gweithredu'n lleol

Mae Partneriaeth Natur Sir Gâr wedi trafod y chwe amcan NRAP cenedlaethol. Seilir y datganiadau hyn ar ganlyniadau gweithdy partneriaeth ac ymgynghoriad dilynol. Gellir ychwanegu atynt yn ddi os. Dylid nodi eu bod yn cyfeirio at swyddogaethau'r Bartneriaeth Natur yn gyfan gwbl a bod gan y cyrrff cyhoeddus yn y bartneriaeth ddyletswydd dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i ystyried bioamrywiaeth a ddylai eu harwain pan fyddant yn cyflawni eu holl swyddogaethau. **Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i ddatblygu camau gweithredu lleol.**



H. Foster



Ian Morgan

AMCAN 1

Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i ymgorffori bioamrywiaeth ar hyd y broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel

Mae'n hanfodol fod pwysigrwydd bioamrywiaeth, ei rôl dyngedfennol yng ngweithrediad ein hecosystemau, ac felly'r cysylltiadau â'n lles, yn cael ei ddeall a'i weithredu arno gan bawb sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r partneriaid ym Mhartneriaeth Natur Sir Gâr wedi gweithio, a byddant yn parhau i chwilio am gyfleoedd, yn ymgysylltu (yn unigol ac ar y cyd) â'r cyhoedd, ysgolion, busnesau, cydweithwyr a thirfeddianwyr yn y sir i godi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin, ei phwysigrwydd a'r angen i'w hystyried wrth wneud pob penderfyniad. Mae'n rôl hanfodol i lawer o'r partneriaid.

Ystyria'r Bartneriaeth y gallai'r amcan hwn gael ei gyflawni yn Sir Gaerfyrddin pan y:

- defnyddir negeseuon clir, syml a chyson er mwyn i bawb ddeall pwysigrwydd bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol a pham y mae angen i ni ei warchod a'i ehangu, gan gynnwys y cysylltiadau â'r argyfwng hinsawdd.
- mae pawb wedi'u grymuso i gymryd camau neu herio penderfyniadau ar wybodaeth ecolegol gadarn a hygyrch.
- caiff bioamrywiaeth ei hintegreiddio mewn cwricwla ar bob lefel ac fe'i haddysgir gan edrych ar gynefinoedd a rhywogaethau lleol er mwyn i ni rymuso/hysbysu/cyffroi pobl ifanc ynghylch ein hamgylchedd naturiol trwy addysg gynradd, uwchradd a thrydyddol (gan gysylltu dysgu awyr agored ac Eco-ysgolion).
- i gyrff cyhoeddus – bod bioamrywiaeth yn cael ei hymgorffori fel rhan o wneud penderfyniadau ar bob lefel.

... a bydd yn canolbwyntio ar gamau lleol a fydd yn cyfrannu at gyflawni hyn.

AMCAN 2

Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf a gwella'r rheolaeth ohonynt

I lawer o bartneriaid Partneriaeth Natur Sir Gâr, mae diogelu rhywogaethau a chynefinoedd o'r pwysigrwydd pennaf a gwella'r rheolaeth ohonynt yn rhan hanfodol o'u pwrpas, yn ogystal ag annog pobl eraill i wneud hynny. I bobl eraill, cyflawnir hyn trwy eu cyfrifoldebau statudol.

Ystyria'r Bartneriaeth y gallai'r amcan hwn gael ei gyflawni yn Sir Gaerfyrddin pan:

- y ceir gwybodaeth glir ynghylch beth yw'n blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ar ran rhywogaethau a chynefinoedd yn Sir Gaerfyrddin, yn seiliedig ar wybodaeth o ansawdd da, meysydd blaenoriaeth dynodedig i weithredu arnynt a'u rôl wrth feithrin rhwydweithiau ecolegol cydnerth ar raddfa'r dirwedd.
- cysylltwyd ag ystod ehangach o bobl/ sefydliadau/ tirfeddianwyr/ cymunedau er mwyn ymgymryd â chamau gweithredu – a'u bod yn deall y gall pawb gymryd camau cadarnhaol.
- fo mwy o safleoedd dynodedig a gwell rheolaeth ar y rhai sydd eisoes wedi'u gwarchod (ac ymgymryd â chamau gorfodi pan fydd angen).
- bod gwneuthurwyr penderfyniadau statudol yn llwyr ystyried y rhywogaethau a chynefinoedd Adran 7 o'r pwysigrwydd pennaf fel rhan o'r penderfyniadau a wnânt.
- bod amaethyddiaeth a chadwraeth yn gweithio ar y cyd ac nid yn erbyn ei gilydd a bod gwell cynlluniau amaeth-amgylchedd targedig a phriodol o hyblyg sy'n ymgorffori gwybodaeth leol ac arbenigedd mwy ar y tir i gefnogi tirfeddianwyr.
- bod mwy o gyfleoedd i gydweithredu rhwng partneriaid ac eraill ar brosiectau tymor hir a ariennir, gan weithio ar draws ffiniau (tirfeddianwyr a siroedd).

... a byddant yn canolbwyntio ar gamau gweithredu lleol a fydd yn cyfrannu at gyflawni hyn.



I. Morgan

AMCAN 3

Cynyddu cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio a chreu cynefinoedd

Mae llawer o bartneriaid Partneriaeth Natur Sir Gâr wedi chwilio/parhau i chwilio am gyfleoedd i gynyddu cydnerthedd ecosystemau yn amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin trwy eu gwaith, naill ai trwy brosiectau rheoli/creu uniongyrchol neu drwy ddynodi cyfleoedd trwy arolygu, casglu data, codi ymwybyddiaeth a gwneud penderfyniadau.

Ystyria'r Bartneriaeth y gallai'r amcan hwn gael ei gyflawni yn Sir Gaerfyrddin pan fo:

- rheolwyr tir/gwneuthurwyr penderfyniadau'n deall pwysigrwydd cydnerthedd (cysylltedd, amrywiaeth, graddau, cyflwr) a sut y gellir ei gyflawni – ar raddfa fach a mawr, trefol a gwledig – trwy ganllawiau ar y cyd clir er mwyn i ni gael rheolaeth dymor hir gynaliadwy o safleoedd/cynefinoedd.
- digon o wybodaeth leol am ble fyddai cysylltedd cynefinoedd fwyaf effeithiol a beth allai/ddylai'r cysylltiadau hyn fod - trwy fapio blaenoriaethau i hysbysu'r cyfleoedd potensial i adfer/creu cynefinoedd
- y wybodaeth hon ar gael ac yn ddealladwy i bawb er mwyn annog camau ar bob lefel er mwyn i ystod ehangach o bobl/sefydliadau/rheolwyr tir ymgysylltu er mwyn ymgymryd â champau gweithredu - byddai hyn yn cynnwys tir cyhoeddus wedi'i reoli'n well (seilwaith gwyrdd), cynlluniau amaeth-amgylchedd effeithiol a gwaith peirianeg a ddyluniwyd i weithio gyda natur a manteisio ar nodweddion/prosesau naturiol.
- gwneuthurwyr penderfyniadau statudol yn llwyr ystyried cydnerthedd wrth wneud penderfyniadau.
- unrhyw gynlluniau newid hinsawdd lleol yn cynnwys gwybodaeth am fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yng nghyd-destun newid hinsawdd

... a bydd yn canolbwyntio ar gamau gweithredu lleol a fydd yn cyfrannu at gyflawni hyn.



AMCAN 4

Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd

Caiff y pwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd eu deall yn llawer gwell fel cymhellwyr newid yng Nghymru: datblygu, rhai arferion rheoli tir, newid hinsawdd, llygredd, Rhywogaethau Estron Goresgynnol ac ati. Mae'r holl bartneriaid yn delio â'r rhain mewn rhyw ffordd trwy eu gwaith, boed hynny'n effeithio ar y rhywogaethau neu'r cynefinoedd penodol y maen nhw'n eu rheoli/monitro/cofnodi.

Ystyria'r Bartneriaeth y gallai'r amcan hwn gael ei gyflawni yn Sir Gaerfyrddin pan:

- fo gennym asesiad o'r prif bwysau yn Sir Gaerfyrddin, lleoliad a blaenoriaethau'r pwysau hynny - er mwyn bwydo a hysbysu datblygiad prosiectau.
- bo prosiectau wedi'u hariannu i fynd i'r afael â phwysau lleol dynodedig gyda'r gallu i fonitro a dilyn i fyny.
- bo'r ddeddfwriaeth sydd ar waith yn cael ei gweithredu'n llawn i fynd i'r afael â phwysau ar fioamrywiaeth, e.e. llygredd, rhywogaethau estron goresgynnol.
- rydym wedi symud tuag at arferion ffermio/coedwigaeth/datblygu sy'n gynaliadwy.
- rydym wedi ennill gwell dealltwriaeth o 'atebion seiliedig ar natur' a sut y gellir eu defnyddio.
- bo gennym ragor o wybodaeth am hyd a lled a rheolaeth effeithiol rhywogaethau estron goresgynnol.
- bo gennym ecosystemau cydnerth (gweler yr amcanion blaenorol).
- y ceir gweithredu lleol effeithiol ar ddiogelu yn erbyn effeithiau newid hinsawdd i'r dyfodol.

... a bydd yn canolbwyntio ar gamau gweithredu lleol a fydd yn cyfrannu at gyflawni hyn.



B. Langridge

AMCAN 5

Gwella'n dystiolaeth, dealltwriaeth a monitro

Blaenoriaeth holl bartneriaid Partneriaeth Natur Sir Gâr yw gweithio i wella'r dystiolaeth y seiliant eu gwaith arni. Gallai hyn fod ar gyfer rheoli rhywogaeth neu gynefin, deall y pwysau ar gynefinoedd/rhywogaethau a'r camau angenrheidiol i helpu eu gwarchod, ynghyd â monitro canlyniadau'r weithred. Mae angen y wybodaeth hon i helpu wrth wneud penderfyniadau ac i helpu wrth godi ymwybyddiaeth ac mae canolfan gofnodion lleol weithredol yn hanfodol ar gyfer hyn.

Ystyria'r Bartneriaeth y gallai'r amcan hwn gael ei gyflawni yn Sir Gaerfyrddin pan:

- fod yna Ganolfannau Cofnodi Lleol cynaliadwy a ariennir yn llawn ar waith, sy'n derbyn yr holl ddata biolegol yn y sir (gan gynnwys data Sir Gaerfyrddin o arolygon cenedlaethol) ac sy'n gallu ymddwyn fel 'canolbwynt' ar gyfer rhannu data/adroddiadau/profiad yn lleol.
- rydym wedi buddsoddi mewn gwybodaeth a sgiliau i sicrhau bod arolygon digonol yn cael eu cynnal gan bobl gyda chymwysterau addas – addysg a hyfforddiant.
- fo'r cyhoedd/ysgolion/cymunedau yn cael eu cymell i

gofnodi ac anfon cofnodion a'u bod yn gysylltiedig trwy brosiectau gwyddoniaeth dinasyddion lleol ystyrlon neu drwy gymryd rhan mewn arolygon cenedlaethol.

- fo'r penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth ar bob lefel ac yn seiliedig ar ddata o ansawdd da.
- fo'r bylchau dystiolaeth yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu deall ac eir i'r afael â nhw.
- fo gwell cysylltiadau rhwng prifysgolion a phartneriaethau lleol i adeiladu ar weithio cydweithrediadol presennol.
- ein bod ni wedi datblygu dangosyddion lleol y gellir eu monitro'n hawdd ac sy'n gyson â dangosyddion cenedlaethol lle bo'n bosibl.
- rydym wedi creu mecanweithiau adrodd cyson er mwyn i ddata o brosiectau allu cael eu rhannu a'u bod yn glir, yn rhesymol ac yn darparu gwybodaeth ecolegol ddefnyddiol i hysbysu gwaith i'r dyfodol.
- yn seiliedig ar yr uchod, gallwn gynhyrchu Adroddiad Cyflwr Natur cywir i Sir Gaerfyrddin gan ddefnyddio system goleuadau traffig sy'n seiliedig ar y dystiolaeth orau a barn arbenigol.

... a bydd yn canolbwyntio ar gamau gweithredu lleol a fydd yn cyfrannu at gyflawni hyn.



AMCAN 6

Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth i gyflwyno ar waith

Mae Partneriaeth Natur Sir Gâr (y Bartneriaeth Fioamrywiaeth cyn hynny) wedi bodoli ers dros 20 mlynedd ac mae wedi cydweithio i rannu profiad ac arbenigedd, wedi ymgymryd â phrosiectau partneriaeth ac wedi bod yn fforwm ar gyfer trafod byd cyson newidiol polisi, strategaeth a deddfwriaeth genedlaethol. Mae'r Bartneriaeth wedi gweithio gyda Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i ddylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth yng Nghymru.

Mae Partneriaeth Natur Sir Gâr yn 'rhwydwaith gwybodaeth' ac yn 'Ganolfan Natur' gyda gwybodaeth, profiad, cysylltiadau, gallu, parhad a phwrpas cyffredin helaeth. Mae'r Bartneriaeth mewn safle da i weithio ar raddfa lai, cymryd camau gweithredu lleol fel

sefydliadau unigol neu hysbysu/cymryd rhan mewn prosiectau partner graddfa fawr yn yr ardal. Yn ogystal, gall y Bartneriaeth asesu blaenoriaethau bioamrywiaeth lleol i weithredu arnynt a darparu/hyrwyddo gwybodaeth i'r cyhoedd.

Ystyria'r Bartneriaeth y gallai'r amcan hwn gael ei gyflawni yn Sir Gaerfyrddin pan:

- rydym wedi datblygu Cynllun Adfer Natur i Sir Gaerfyrddin sy'n adlewyrchu'n hynod rwydd lleol ac sy'n gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru.
- bo gennym Ddatganiad Ardal sy'n adlewyrchu materion lleol dynodedig ac sy'n cysylltu'n effeithiol gyda'r Bartneriaeth
- bo partneriaid cyrff anlywodraethol yn cael eu cynnal yn y tymor hir i barhau i ymgymryd â gwaith yn y sir.
- y gall rheolwyr tir lleol gysylltu ag arbenigwyr lleol (y Bartneriaeth) i wneud gwell penderfyniadau.
- y gall CNC gyflawni eu hystod gweithrediadau yn effeithiol a chefnogi pobl eraill i weithredu a rhannu gwybodaeth
- bod yna Gomisiynydd Amgylcheddol i Gymru er mwyn herio cyrff cyhoeddus ar y pen uchaf am eu dyletswydd Deddf yr Amgylchedd – fel Comisiynydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- bod cyllid yn gynaliadwy a mecanweithiau ariannu arloesol yn cael eu harchwilio sy'n dod â phartneriaid newydd i mewn.

... a bydd yn canolbwyntio ar gamau gweithredu lleol a fydd yn cyfrannu at gyflawni hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried gweithredu o dan ddau faes sydd â themâu sylfaenol i dywys camau gweithredu:

- **Gweithredu dros leoedd** – cymryd camau gweithredu gofodol wedi'u targedu i ddod â manteision i fioamrywiaeth, rhywogaethau a chynefinoedd ac i osgoi effeithiau negyddol.
Thema: cynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth
- **Gweithredu dros bobl** – newid trawsnewidiol i ddylanwadu ar ymddygiad a gwneud penderfyniadau buddsoddi i sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth.
Themâu: trosglwyddo gwybodaeth, gwireddu buddsoddiad a chyllid newydd, gwella sgiliau ar gyfer cyflawni a phrif-ffrydio ein cynnydd ac adrodd arno.

Bydd y rhain yn llywio camau gweithredu yn y dyfodol yng Nghynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin a fydd yn cael ei ddatblygu gan y bartneriaeth.

3.6 Creu adroddiadau

Ar hyn o bryd, llunnir adroddiad blynyddol syml sy'n dangos ystod y camau gweithredu a gynhaliwyd gan bartneriaid ar y tir bob blwyddyn. Anfonir y rhain at Lywodraeth Cymru a'u gosod ar dudalennau bioamrywiaeth gwefan y Cyngor.

Bydd adroddiadau i'r dyfodol yn cael eu diwygio i ddilyn canllawiau LIC ond byddant yn debygol o ofyn am adroddiad blynyddol sy'n dal camau gweithredu lleol gan y partneriaid ac o bosibl yn defnyddio system goleuadau traffig.

Bydd hyn yn cael ei ddatblygu wrth i wybodaeth/canllawiau gael eu derbyn ond byddant yn parhau i gael eu gosod ar wefan y cyngor.